# Cenn@d

AWST 27 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 235

## Oedfa Ilston 2025

"Yr wyf yn dy hysbysu mai yr ARGLWYDD fydd yn adeiladu tŷ i ti".

Ers blynyddoedd lawer bu'n arferiad gan Undeb Bedyddwyr Cymru i gynnal oedfa yn yr awyr agored ar safle Ilston, Cwm Illtyd, Gŵyr, i gofio sefydlu'r achos Bedyddiedig Neilltuol cyntaf yng Nghymru yn 1649 gan John Myles.

Eleni, ac yntau newydd ei urddo fel Llywydd yr Undeb, y Parchg Rob Nicholls, Llundain, oedd yn gyfrifol am arwain yr oedfa a gafodd ei chynnal ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf, ac roedd yn hyfryd gweld tua 25 o bobl wedi dod ynghyd ar gyfer yr achlysur.

Wrth estyn croeso i bawb, diolchodd y Llywydd am brynhawn braf a heulog cyn mynd ati i gyflwyno'r rhai oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol, sef y Parchg David Jones, Llanelli; Dr Christian Tucker-Williams, Pen-clawdd; a'r Parchg Eirian Wyn, Brynaman. Traddodwyd neges bwrpasol gan y Llywydd yn seiliedig ar 1 Croncl 17:1–15 a chawsom ein hatgoffa ganddo am anghenraid presenoldeb Duw yn yr Eglwys a'r modd yr oedd wedi ein harwain fel Bedyddwyr ar hyd y blynyddoedd. Nid oedd modd aros yn ein hunfan yn ysbrydol, ond rhaid oedd symud ymlaen mewn ffydd a hyder gan ogonoeddu Duw yn enw Iesu a chofio bob amser mai Duw oedd yn adeiladu ei dŷ.



Yn ystod yr oedfa, cawsom gyfle hefyd i uno i ganu nifer o emynau a chyhoeddwyd y fendith gan Miss Aldyth Williams, Treforys.

Diolch i'r Parchg Rob Nicholls am drefnu gwasanaeth hynod fendithiol ac i bawb a ddaeth i Ilston i gofio am ein dechreuadau fel enwad.

## *Yng Ngolwg Ffydd* gan Owain Llŷr Evans

Er mai ar fore Llun Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam y bu lansiad swyddogol *Yng Ngolwg Ffydd*, casgliad o erthyglau Colofn Golwg360 ein gweinidog, y Parchedig Owain Llŷr Evans, braf iawn i ninnau fel eglwys, yn arbennig felly, a ninnau'n cael cwmni brodyr a chwiorydd o eglwysi eraill Caerdydd a'i chyffiniau, oedd cael lansiad bach answyddogol ein hunain yng Nghapel Minny Street.

Wedi gair bach gan Dr Bethan Jones, ac ychydig sylwadau gan y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac felly un o ymddiriedolwyr Cyngor Ysgolion Sul, cafwyd cyfle am lun, paned a sgwrs – a'r gyfrol ar gael i bawb.

Boed gwerthiant da i'r gyfrol, a bendith o'i herwydd.

Yng *Ngolwg Ffydd, casgliad o erthyglau colofn Golwg360* gan Owain Llŷr Evans. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £9.99.




Credo Nicea – Sesiwn Tri: Iachawdwriaeth y Groes (rhan 2)
**Tudalen 2**

Y Parchedig Elwyn Pryse
**Tudalen 4**

# ‘Hanes a phrofiadau pobl Dduw yn llenwi’r lle’ – encil eglwysi’r Gogledd-ddwyrain yng Nghanolfan Trefeca

Braint oedd cael ymuno yn yr encil ar gyfer eglwysi’r Gogledd-ddwyrain eleni yng Ngholeg Trefeca, 18–20 Mehefin. Diolch am gwmni pawb o gylchoedd Wrecsam a’r Wyddgrug yn ystod y tri diwrnod y buom gyda’n gilydd. Cawsom gyfarfod ynghyd i ddechrau mewn llecyn hyfryd a hanesyddol iawn, sef Abaty Cwm Hir, lle mae gweddillion Llywelyn ein Llyw Olaf yn gorwedd. Roedd y rhan fwyaf ohonom yn ymweld â’r lle hwn am y tro cyntaf – safle arbennig iawn a’r abaty Sistersaidd mwyaf yn Ewrop ar y pryd. Allwch chi ddim ond dychmygu bwrlwm bywyd ysbrydol a mawredd yr abaty o’r gweddillion sydd yno i’w gweld. Hyfryd oedd cael sgwrs gyda pherchennog y fferm a’r tir wrth iddo rannu ychydig o’i brofiadau gyda ni yn gofalu am y safle hanesyddol hwn ers y chwedegau.

Wedi cyrraedd Trefeca, roedd pawb ohonom wedi rhyfeddu at safon y llety a’r croeso, yr ystafelloedd *en-suite* hyfryd, modern, y gerddi eang a thawelwch y safle. Mae awyrgylch arbennig yn y coleg ac fe deimlwch yr holl hanes a phrofiadau pobl Dduw yn llenwi’r lle. Cawsom epilog a chyflwyniad i’n hencil yn y Capel Bach gan y Parchedig Huw Powell-Davies, oedd wedi trefnu popeth mor arbennig ar ein cyfer. Gan ei bod hi’n noson mor braf, cawsom fynd i lawr at Lyn Syfaddan/Llyn Llangors i fwynhau’r golygfeydd godidog a gweld yr haul yn machlud. Mae’n amlwg fod hwn yn fan poblogaidd iawn i ymlacio a mwynhau.

Roedd y diwrnod canlynol yn gyfle i ni weld rhai o’r mannau pwysig lleol, gan ddechrau yn Eglwys Llangasty Talyllyn (sydd yr ochr draw i Lyn Syfaddan), eglwys hynafol, wledig mewn safle tawel ger y llyn. Yn y fan honno, 290 o flynyddoedd i’r diwrnod (19 Gorffennaf 1735), y daeth Howell Harris i brofiad llawn o sicrwydd ffydd a’i cynhaliodd yn ei weinidogaeth a’i genhadaeth ar hyd ei oes. Teithio i’r Fenni wedyn a chael cyfle i weld priordy’r Santes Fair, y ffenestr Jesse hardd a’r cyff Jesse hynod sydd oddi tani. Roedd arddangosfa gelf arbennig o waith yr artist Cristnogol Jeremy Thomas yn yr Ysgubor Degwm gerllaw.

Ar ôl cinio mewn bwyty lleol, cawsom sgwrs gan y Parchedig Ian Hayward yng Nghapel Whitfield, capel â chysylltiad â George Whitfield a wnaeth ei gartref yn y dref (hynny oedd ganddo o gartref), ar ôl priodi Elizabeth Gwynne yn 1741. Clywsom am weledigaeth y gynulleidfa yno i estyn allan i’r gymuned a’r heriau sy’n eu hwynebu gyda’r adeilad.

Wedi i ni ddychwelyd i’r coleg, cawsom epilog ar ôl swper, gyda’r Parchedig Aled Lewis Evans yn ein harwain gan rannu ei brofiadau yn paratoi at ddau gyflwyniad o bwys. Yn gyntaf,



Yng Nghapel Maesyronnen ar y ffordd i’r Gelli Gandryll



Yn ystafell yr Arglwyddes Huntingdon yn nhŷ Howell Harris yn Nhrefeca

hanes Mari’r Golau yn ardal Ardudwy oedd yn rhannu’r efengyl yn yr ardal yn ystod Diwygiad 1904/5, a goleuadau’n ymddangos lle roedd yn mynd; ac yn ail, cyflwyniad Teulu Trefeca ar gyfer dathliad 250 mlynedd y teulu yn y Coleg yn 2003. Cawsom gyd-ganu a gweddïo gyda’n gilydd ar ddiwedd diwrnod llawn, a hynny ar ddiwrnod poethaf y flwyddyn hyd hynny!

Ar y bore olaf gyda’n gilydd cawsom gwmni’r Parch. Wayne Adams, sydd, ynghyd â’i wraig, Teressa, yn gyfrifol am y datblygiadau yno ar hyn o bryd. Rhannodd ychydig am John Pugh, un o gyn-fyfyrwyr Trefeca, a ddaeth yn sylfaenydd Symudiad Ymosodol y Methodistiaid Cafinaidd ar droad yr 20fed ganrif, mudiad a welodd blannu ugeiniau o eglwysi ar y pryd. Bu am gyfnod ym Mhontypridd ac un o’i gymwynasau yno oedd sicrhau adeiladu llyfrgell yn y dref yn wyneb gwrthwynebiad mawr y tafarnwyr. Trwy hynny roedd Wayne, yn llanc ifanc, wedi medru cael man tawel i astudio ac addysgu, a rhannodd am y cynllun i gael eglwys dairieithog ym Mhontypridd, sef Capel y Bont (Cymraeg, Saesneg a BSL – iaith arwyddo).

Roedd yn rhaid ffarwelio â Threfeca ac anelu at y Gelli Gandryll (Hay-on-Wye). Ar y ffordd fe wnaethon ni ymweld â chapel Maesyronnen, hen gapel yr Ymneilltuwyr, un o’r rhai hynaf sy’n parhau i gael ei ddefnyddio. Roeddem i gyd wedi ein cyfareddu gan y capel hwn, oedd yn amlwg yn hen ysgubor wedi ei thrawsnewid yn gapel ac yn dyddio o tua 1696; bellach mae yng ngofal yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC). Diddorol oedd sylwi mai’r pregethwr y Sul canlynol oedd y bardd Grahame Davies, gynt o Goedpoeth! Roedd yr hen a’r newydd yn cydblethu yn y capel bach hwn. Trueni na allai’r waliau siarad!

Daeth yr encil i ben yn Eglwys Cusop ar gyrion y Gelli, lle mae man claddu William Seward, merthyr cyntaf y Methodistiaid, ac mae plac ar y mur yn yr eglwys i gofio amdano. Cawsom ein hatgoffa o aberth ac ymroddiad y Methodistiaid cynnar a’n herio i ymroi o’r newydd i’n ffydd a’i rhannu gydag eraill yn ein cymunedau.

Diolch am y dyddiau hyn gyda’n gilydd a diolch arbennig i Huw am yr holl drefniadau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf!

*Marian Lloyd Jones*
*Rhosllannerchrugog*

# Credo Nicea – Sesiwn Tri: Iachawdwriaeth y Groes (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

**Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau**
Newidiwyd popeth gan yr atgyfodiad. Oherwydd atgyfodiad Iesu, oedd yn cyflawni addewidion yr Hen Destament, rydym wedi ein hachub; nid y diwedd yw marwolaeth ond dechrau bywyd newydd i bawb ohonom. Mae buddugoliaeth yr atgyfodiad yn torri drwy dywyllwch y croeshoelio. Mae'r bedd gwag yn dangos buddugoliaeth Iesu dros angau a'r addewid am fywyd a gobaith newydd: "Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist" (1 Corinthiaid 15:22).

**Esgynnodd i'r nef, ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad**
Y mae esgyniad Iesu yn cryfhau ein gobaith fwy fyth. Yn fuddugoliaethus dros angau, aeth Iesu i'r nef i baratoi lle ar ein cyfer. Mewn safle o rym ac awdurdod, mae'n ymgorffori presenoldeb bythol-bresennol Duw a'i fwriad terfynol ar gyfer y ddynolryw.

**A daw drachefn mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw: ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd**
Bydd Iesu'n dychwelyd mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw gan sefydlu teyrnas heb ddiwedd. Ni ddylai hyn fod yn achos ofn ond yn hytrach yn achos gobaith. Fe'n gelwir i fyw gan feddwl mai hwn yw ein diwrnod olaf ar y ddaear. Fel hyn, gallwn fod yn barod i gyfarfod Iesu, lle mae cyfiawnder a thangefedd tragwyddol: "Yna clywais lais o'r nef yn dweud, 'Ysgrifenna: "O hyn allan gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr Arglwydd." "Ie," medd yr Ysbryd, "cânt orffwys o'u llafur, oherwydd y mae eu gweithredoedd yn eu canlyn hwy" ' " (Datguddiad 14:13).

Mewn byd sydd wedi ei sarnu gan drais a rhaniadau, yn arbennig yn ein rhanbarth ni, mae Credo Nicea yn cynnig neges o obaith a gwaredigaeth. Nid datganiad hanesyddol ydyw yn unig; mae'n alwad i weithredu. Galwad i'r Eglwys i feddwl yn ddyfnach am y Credo fel na fydd y ffyddloniaid yn adrodd y geiriau yn unig ond yn deall mor gyfoethog ydyw. Mae aberth Iesu yn ein cymell i geisio heddwch a chymod, gan ddewis cariad yn lle casineb, hyd yn oed ynghanol poen enfawr. Mae hyn yn troi'n alwad i ni gydweithio i adeiladu dyfodol mwy cyfiawn a heddychlon, gan gael ein hysbrydoli gan y neges fawr o obaith a gynigir gan y Crist atgyfodedig. Dyma ein hatgoffa nad dioddefaint yw'r diwedd; bydd cariad a chyfiawnder Duw yn gorchfygu yn y diwedd. Mae'n neges bwerus i'n nerthu a'n hysbrydoli ar gyfer gwaith cymod, maddeuant a thangnefedd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1. Sut mae deall Credo Nicea fel ffydd a rennir, yn hytrach nag argyhoeddiad personol yn unig, yn cryfhau eich ymdeimlad o berthyn ac yn cael effaith ar eich agwedd at addoliad a'ch ymwneud â'ch cymuned eglwysig?
2. Yn eich bywyd chi eich hun, ydych chi wedi cael profiad o sefyllfa oedd yn ymddangos yn anobeithiol, ond lle daethoch o hyd i obaith a dechrau newydd? Sut mae aberth eithaf Iesu a'i atgyfodiad yn dylanwadu ar eich dealltwriaeth o ffydd a'ch perthynas â Duw, ac yn cysylltu â'ch profiad personol chi eich hun?
3. Sut y gallwch gymhwyso'r neges o obaith sydd yn atgyfodiad Iesu i'ch bywyd chi, yn arbennig ar adeg heriol?
4. Mae'r myfyrdod yn gorffen gyda galwad i weithredu am fyd mwy cyfiawn a heddychlon. Pa gamau penodol allwch chi eu cymryd yn eich bywyd bob dydd i ymgorffori'r neges o gariad, maddeuant a chymod a bwysleisir yng Nghredo Nicea?

**Gweddi**
Defnyddiwch y pwyntiau gweddi hyn fel arweiniad i'ch cyfnod o weddi:

- Dyfnhau eich dealltwriaeth a'ch ffydd: Gweddïwch am gael dealltwriaeth ddyfnach o Gredo Nicea. Gofynnwch i Dduw agor eich calon i gyfoeth ei neges a'ch helpu i symud y tu hwnt i adrodd y geiriau'n unig. Gofynnwch i Dduw agor eich calon i'w neges o rannu ffydd, ac undod o fewn corff Crist. Myfyriwch sut y gall yr hyn a wnewch chi gyfrannu at gymuned eglwysig gryfach a mwy cariadus.
- Byw'r neges o obaith ac atgyfodiad: Myfyriwch ar ddioddefaint a marwolaeth Iesu. Diolchwch iddo am gyflawni'r weithred eithaf o gariad drosoch chi. Gweddïwch am nerth i fyw'r neges o obaith a gwaredigaeth yn eich bywyd bob dydd. Gofynnwch i Dduw eich arwain i ddewis cariad yn lle casineb, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol. Ceisiwch ysbrydoliaeth yn aberth Iesu i ymdrechu dros heddwch a chymod yn eich cymuned ac yn y byd, yn arbennig mewn mannau sy'n wynebu trais a rhaniadau.
- Dowch o hyd i obaith yn yr atgyfodiad: Rhowch ddiolch am addewid o obaith a bywyd newydd drwy atgyfodiad Iesu. Gweddïwch am obaith wrth wynebu dioddefaint a heriau, gan ofyn i Dduw am nerth i gredu nad dioddefaint yw'r diwedd, ond y bydd cariad a chyfiawnder Duw yn trechu yn y diwedd. Ceisiwch ddewrder a nerth yn neges Credo Nicea i'ch galluogi i weithio dros fyd mwy cyfiawn a heddychlon dan ysbrydoliaeth buddugoliaeth derfynol Crist.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 31 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Beti-Wyn James

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 31 Awst, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Donna George, Crymych

# Y Parchedig Elwyn Pryse



Ni fyddai neb yn hir yng nghwmni ein cyfaill Elwyn Pryse cyn iddynt wybod ei fod yn hanu o Ysbyty Ystwyth. Dyma'r graig y naddwyd ef ohoni, ac ymhyfrydai yn ei etifeddiaeth gyfoethog. Roedd holl elfennau ei gymeriad a'i bersonoliaeth yn deillio o fro ei enedigaeth. Roedd ei gynildeb yn ddiarhebol, ac eglurai wrth bawb eu bod fel teulu'n dlawd ac yn gorfod crafu cynhaliaeth. Yn arddwr medrus, nid oedd blodyn i'w weld yn unman ganddo, gan na ellir bwyta blodau.

Bu'n llwyddiannus fel gwenynwr, ac yn ei flynyddoedd olaf diolchodd ganwaith am y wenynen fach a'i galluogodd i adeiladu'r byngalo a fu'n gartref iddo a'i briod wedi iddo ymddeol. Mae sawl stori am ei gynildeb wrth iddo daro bargen, ond nid oedd gronyn o gybydd-dod yn perthyn iddo. Gofalus, ie, ond hael ei gymwynas. Roedd pobl Ysbyty Ystwyth yn barod i rannu'r ychydig oedd ganddynt, meddai, a glynodd cymwynasgarwch y gymdogaeth dda ynddo tan y diwedd.

Ysbyty Ystwyth fu'n gyfrifol am feithrin ynddo ei ffydd Gristnogol, a Dafydd Morgan, a ddefnyddiwyd yn Niwygiad 1859, a Joseph Jenkins, Cwmystwyth, a fu'n cynnau'r tân yn ei eglwys yn Niwygiad 1904, oedd ei arwyr. Rhaid cofio na fyddai Elwyn yn blino sôn am Lloyd, Cwmystwyth, y gweinidog ffraeth ei dafod a fu'n herio cynulleidfa barchus y Tabernacl, Aberystwyth, gan ddweud: "Yr ydych yn meddwl lot o'ch hunain yn eglwysi mawr y dref yma, ond bydd pobl Cwmystwyth yn cyrraedd y nefoedd yn eu clocs pan fyddwch chi yn chwilio am eich slipars." Dyma fyd y Parchg Elwyn Pryse, ac yr oedd erwau Ysbyty Ystwyth a Chwmystwyth yn gysegredig yn ei olwg.

Ganwyd ef ar 2 Tachwedd 1930, yn drydydd plentyn Elias a Mary Pryse. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Ysbyty Ystwyth cyn cael ysgoloriaeth i Ysgol Uwchradd Tregaron. Golygai hyn gryn aberth i'w rieni gan y byddai'n rhaid talu am aros yn Nhregaron gydol yr wythnos. Dechreuodd ennill wrth adrodd mewn eisteddfodau, a gwahoddid ef yn aml i gyfarfodydd cymdeithasol yr eglwysi. Ym marn y prifathro D. Lloyd Jenkins, roedd yn amlwg mai i'r weinidogaeth y dylai ei gyflwyno'i hun. Ac yntau'n ddim ond pymtheg oed, bu farw ei dad a'i fam a derbyniwyd ef â breichiau agored i aelwyd ei chwaer, Bertha, a'i phriod, Ceredig, ym Mhwllpeirian, Cwmystwyth. Nid anghofiodd eu caredigrwydd ac yntau'n hollol ddiymgeledd.

Wedi derbyn hyfforddiant yn Nhrefeca, derbyniwyd ef i'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, lle llwyddodd i ennill y diploma diwinyddol. Am y tro cyntaf, roedd y Cwrs Bugeiliol i gydredeg â'r Cwrs Academaidd, a gan ei fod ef ar ei flwyddyn olaf, ychydig o gyfarwyddyd a dderbyniodd. Tystiodd lawer tro i'w ddyled am gymorth gweinidogion y Rhos: James Humphreys, Capel Mawr; John Evans, Ponciau; a John Roberts, Pen-y-cae, am ei osod ar ben y ffordd yng ngwaith y weinidogaeth.

Yn 1954, blwyddyn ei ordeiniad, priododd Tegwen Ellis yn eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth, a bu Tegwen yn gymar digyffelyb iddo ar hyd y daith. Gwasanaethodd mewn pedair gofalaeth: Moriah, Rhosllannerchrugog; Johnstown a Rhiwabon o 1954 hyd 1958. Gofalaeth wledig oedd Llanrhaeadr-ym-Mochnant, lle gweinidogaethodd o 1958 hyd 1964, pan dderbyniodd alwad i'r Tabernacl, Llanymddyfri, Seilo a Chil-y-cwm. Yn 1974, dychwelodd i ardal ei fagwraeth drwy weinidogaethu yn y Borth, gan dderbyn yn ddiweddarach eglwysi'r Garn, Bow Street, a Madog. Ym mhob gofalaeth byddai'n paratoi'n ofalus ar gyfer y pulpud ac yn fugail ymroddedig. Ar ôl triniaeth feddygol arw ymddeolodd ar gyngor meddyg yn 1993.

Ym mhob henaduriaeth bu'n weithiwr parod mewn gwahanol swyddi, ond diddorol sylwi iddo wasanaethu'n gyson ar bwyllgorau ariannol y Sasiwn a'r Gymanfa Gyffredinol. Gwnaeth lawer safiad i ddiogelu buddiannau'r eglwysi, yn enwedig eglwysi bychain cefn gwlad.

Roedd yn genedlaetholwr pybyr ers dyddiau ysgol yn Nhregaron. Ym mhob gofalaeth, bu ei gartref yn gyrchfan i weithwyr y Blaid ac yn Llanymddyfri bu'n un o ganolfannau cynllunio ymgyrchoedd, canfasio a dosbarthu posteri. Penllanw'r cyfan oedd buddugoliaeth Gwynfor Evans yn etholaeth Caerfyrddin. Mae ei unig fab, Maldwyn, yn cofio'r trafodaethau a gafwyd ar eu haelwyd pan fu Gwynfor yn treulio rhai dyddiau gyda nhw tra oedd yn hybu'r Blaid yn Sir Drefaldwyn. Yn Llanymddyfri, cawsant gwmni D. J. Williams, Abergwaun, a byddai Carwyn James, oedd yn athro yn y Coleg, yn ymweld yn wythnosol i fwynhau mwgyn, paned a sgwrs. Testun balchder i Elwyn oedd dyrchafiad Maldwyn yn Faer Aberystwyth ac yn gynghorydd dros Blaid Cymru.

Nid oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn chwaraeon ond bu'n un o garafanwyr brwd y Carafanwyr Cymreig. Teithiai ymhell ac agos gan fwynhau'r gwmnïaeth, a hoffai sôn am lawer tro trwstan.

Bu farw ar 2 Awst, yn 94 mlwydd oed, a chynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd a'i waith yng nghapel y Garn ar 16 Awst 2025. Dychwelwyd ei lwch i'w hoff Ysbyty Ystwyth.

*J. E. Wynne Davies*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru